

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 38 Medi 17, 2026 50c.

Soar, Nefyn

Bore ola'r ysgol Sul cyn gwyliau'r haf, dyma blant ac oedolion Soar, Nefyn yn anelu at gae'r ysgol i gynnal gwasanaeth ac orig o hwyl yn yr heulwen fendigedig.

Cafwyd gwasanaeth hyfryd gan y plant dan arweiniad eu

hathrawes frwdfrydig Mrs Lleucu Jones. Yn ogystal â darlenniadau o'r Beibl, cafwyd gweddi, parti canu i gyfeiliant gitâr Lleucu, unawd canu ac unawd ar y trwmped! Diolch i fam Lleucu, Owenna Hughes, am gyfeilio ar yr allweddellau.



Crëwyd awyrgylch braf a phawb yn mwynhau ar eu cadeiriau haf. Wedyn cafwyd cyfle i'r plant a'r oedolion dewr chwarae rownderi – a'r tadau'n fwy cystadleuol na'r plant!! I orffen bore bendithiol rhaid oedd mwynhau picnic a diod i dorri syched. Mae'r plant yn haeddu gwyliau wedi'u holl waith ers y Nadolig.

Janet W. Hughes

Myfyrdod bore dydd Gwener yr Undeb

Ydych chi'n teimlo'n ddigalon weithiau a bron a danto a rhoi'r twls ar y bar? Mae popeth fel petai yn rhwystr i waith yr eglwys. Argraff y criw o CWM fu ar ymweliad a Chymru yw ein bod yn flinedig. Y pandemig; difaterwch; anghrediniaeth; materoliaeth filitaraidd; adeiladau – cwmnïoedd sgaffalde yn gwneud ffortiwn; demograffi yn newid fel y noda Ieuan Wyn yn ei englyn i'r alltud:

Gofid yw colli gafael – ar ddaear
O ddewis ymadael,
Ond â'n gwlad yn ein gadael
Does hid na gofid i'w gael.

Meddyliwch am brofiad Elias yntau yn dianc rhag llied Ahab a Jesebel oedd am ei waed. Mae'n dianc i Beerseba a cherdded yn yr anialwch gan chwilio am gysgod o dan y ferywen ac yna'i 'encounter' â Duw yn Horeb (sef enw arall ar Sinai). Mae Elias yn cuddio yn yr ogof a Duw yn ei holi beth yn y byd yr oedd e'n ei wneud yno? Mae'n ateb bod yr Israeliaid wedi cefnu ar y cyfamod, dymchwel yr allorau a lladd y proffwydi ac

parhad ar dudalen 2



Eisteddfod y Garreg Las



Bu Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg y Parchg Owain Llŷr yn brysur ar faes yr Eisteddfod. Ef oedd yn fuddugol ar y stori fer gan ennill gwobr goffa Tony Bianchi. Bu hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiad i gofio erchylltra Hiroshima.



Bu'r Parchg Beti Wyn James yn brysur fel arwyddfardd yr Orsedd yn cadw trefn ar y regalia a'r celfi, arwain gorymdeithiau ac yn cynorthwyo yn y seremonïau.



Enillodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol Elinor Wyn Reynolds y Stomp a hefyd bu'n trafod barddoniaeth Geraint Jarman yn ystod yr ŵyl.

Myfyrdod bore dydd Gwener yr Undeb – parhad

roedd yntau'n teimlo'n hollol unig. Anogodd Duw ef i aros ar fynydd Horeb er mwyn profi presenoldeb Duw ac er i'r gwynt chwythu a'r ddaear ysgwyd gan ddaeargryn, nid yw Elias yn symud tan iddo ymglywed â'r llef ddistaw fain, distawrwydd llethol, awel ysgafn neu lais tawel yn sibrd. Ar ôl clywed mae'n lapio ei glogyn dros ei wyneb gan sefyll wrth geg yr ogof ac mae Duw yn gofyn i Elias, beth mae'n mynd i'w wneud nawr? Mae Elias yn mynd ymlaen yn hyderus ac mae'n eneinio Eliseus – oedd ar y pryd yn aredig – i gario mlaen â'r gwaith.

Datganodd gweinidog gyda'r Hen Gorff na fydd yna grefydd ar ôl yng Nghymru erbyn 2050. Nid yw Duw erioed wedi gadael ei hunan yn ddiyst. Gwir fod y patrymau presennol yn dod i ben ond fe fydd yma eglwys a phobl yn tystio i'r Efengyl. Mae Elias o gael ei adnewyddu yn cerdded i'r dyfodol yn hyderus.

Fel Elias mae Paul yn trosglwyddo'r awenau i'w fab yn y ffydd Timotheus oedd wedi derbyn y ffydd ddiffuant trwy

dystiolaeth ei fam Eunice a'i fam-gu Lois. Y ffydd yn cael ei throsglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall. Yr un yw'r neges yn englyn Gerallt Lloyd Owen yn cofio am ddyllanwad Llwyd o'r Bryn:

Tybiais wrth fyned heibio – ei glywed
O'i oer glau yn sgwrsio
Yma 'rwyf ond blant fy mro
Daliwch heb laesu dwylo

Yn ei ddau lythyr bugeiliol mae Paul yn cynghori'r gweinidog ifanc i gadw ynghyn y ddawn a roddodd Duw iddo gan ychwanegu, 'Nid ysbryd sy'n peri llwfrdra a roddodd Duw i ni.' (2 Timotheus 1:7a). Meddyliwch am hyder yr apostolion yn dilyn y Pentecost. 'Canys ni allwn ni na ddywedom y pethau a welsom ac a glywsom.' (Actau 4:20) Ac meddai Paul, 'Mi a wn i bwy y credais;' (2 Timotheus 1:12). Rhydd Duw inni ysbryd sy'n creu nerth a chariad a hunanddisgyblaeth.

Soniwyd cryn dipyn yn ddiweddar am y diwygiad tawel (the quiet revival) ac os oedd y data yn

gamarweiniol mae'n sicr fod yr Ysbryd ar waith. Darllenwch gyfrol Trystan Hughes am ei bererindod i Enlli lle mae'n son am 'the thin place' ac Aled Jones Williams yn ei gyfrol *Reit Rownd* a'r storiâu yn *Y Tyst* am Gabriel, Iesu a'r gofodwr o Gristion, Buzz Aldrin, ac elfennau'r cymundeb. Mae'r Eglwys Babyddol hefyd wedi gweld dynion ifanc o'r newydd yn ymuno oherwydd dylanwad y Pab presennol.

Yn Undeb Dolgellau ym 1972 siaradodd Dewi Myrddin Hughes ar y testun 'Pam adfywiad?' Roedd ganddo dri phen: 1) Adfywiad er mwyn yr eglwys; 2) er mwyn y byd; 3) er mwyn y deyrnas ac mae'n diweddu gyda'r sylw o angladd Robert Kennedy. 'Mae rhai pobl yn meddwl am bethau fel y maent ac yn gofyn Pam? Rydw i yn breuddwydio am bethau fel y dylent fod ac yn gofyn Pam lai?' Yn ei erthygl olygyddol yn *Y Tyst* adeg y Sulgwyn mae Rhys Locke yn ein hannog i fynd allan, bod yn weladwy a bod yn ddewr. Rhaid bod yn gariadus ac yn bobl y tân, y gwynt a'r llef ddistaw fain.

Pan oedd yr Alltwn yn dathlu rhai blynyddoedd yn ôl, gofynnwyd i Dafydd Wyn Jones, Aberteifi gyfansoddi emyn a dyma'r pennill olaf:

Boed inni y gweddill ffyddlon
Feithrin ffydd y tadau gynt
Fel y cerddom i'r dyfodol
Gyda hyder yn ein hynt
Boed i ninnau heddiw geisio
R'un arweiniad oddi fry
Fel y medrwn ni ledaenu
Newydd da, d'efengyl Di.

Gareth Morgan Jones

ochr arferol,ddiogel a chyfarwydd. Efallai bod angen weithiau i droi'r pren trwm, a mentro torri o'r ochr draw. Ond, ofer troi'r pren heb fod min ar y fwyell.

Un o swyddogion pennaf Owain Glyndŵr oedd Cadwgan. Pan fyddai angen rhagor o filwyr, danfonid Cadwgan i'r ffeiriau a'r marchnadoedd i hel milwyr ato. Roedd ganddo ddull unigryw o wneud hynny. Yn lle siarad gyda phobl ac areithio'n wladgarol, safodd yn dawel yn eu plith yn hogi ei fwyell fawr. Heb yr un gair, deallai pawb ei neges, a phan fyddai angen dynion ar Owain Glyndŵr, ei orchymyn oedd: 'Cadwgan! Hoga dy fwyell'!

Ni allaf feddwl am well anogaeth i mi fy hun ar hyn o bryd, ac felly mentraf awgrymu hyn i chi'n anogaeth hefyd: Hoga dy fwyell. Heb fod min ar y fwyell, ofer min ar eiriau.

Owain Llŷr

WRTH Y LLYW #19

Y Sioe! Daeth cyfle i fynd i'r Sioe Frenhinol ddydd Mercher 8 Gorffennaf. Rhwng y da, y geifr, y moch, yr ieir a'r defaid, y merlod Shetland a'r ceffylau trwm; styntiau beic cwad, tîm arddangos parasiwt RAF Falcons, Hawkeye, cŵn defaid Merion a'r cerbydau Tristar, stondinau a chymeriadau amryliw, y gorau o bob math o gynnyrch Cymreig yn y neuadd fwyd, ces i ddiwrnod hyfryd a braf. I mi, tri pheth sydd yn orfodol wrth ymweld â'r Sioe: y cneifio, y gofaint a'r coedwyr.

Er nad oes gan dipyn gweinidog dinesig mo'r cymwysterau angenrheidiol i fesur pa un sydd fwyaf o dreth ar nerth person, gwn mai fy ffefryn innau yw camp y coedwyr. Er, rhaid cydnabod dawn a gallu Gethin Lewis, Glan Elan, Cwmdaiddwr, Rhaeadr Gwy yn ennill Gwobr Dr Emrys Evans (18/6/2026) am gneifio 1,364 o ddefaid mewn 8 awr!

Gan fod gennyf fymryn mwy o brofiad o dorri pren na chneifio defaid, dwi am aros gyda'r coedwyr. Camp sylweddol ar y gorau, yw torri clamp o ddarn o bren yn ddau, ond fwyfwy wrth orfod sefyll

arno! Maddeuwch y sylw amlwg, ond er mwyn torri trwy'r pren, mae'n rhaid i'r coediwr dorri'n ddwfn i mewn i'r pren o'r un ochr, ac yna, troi'r pren, ac anelu ergyd y fwyell y tro hwn o'r ochr draw.

Yn fy mywyd i – a'ch bywyd chithau hefyd o bosibl – mae yna rywbeth neu ryw bethau sydd fel darn mawr cnotiog caled o bren. Efallai, eich bod chi, fel finnau, wedi bod yn torri a thorri, a thorri eto fyth i'r pren hwn, o un ochr yn unig – heb fawr o effaith arno mewn gwirionedd. Mynnwch gyfle, crëwch gyfle i droi'r pren trwm, a dechrau anelu ergyd y fwyell bellach o'r ochr draw.

Fel arweinwyr a gweinidogion, fel eglwysi ac fel Undeb o eglwysi ein tueddiad yw torri a thorri o'r un ochr, yr



Cymorth Cristnogol – Apêl Llifogydd Nepal

“Clywais sŵn uchel y llifogydd a dechreuais banicio wrth feddwl am holl aelodau fy nheulu: ble oedden nhw? A oedden nhw’n gallu rhedeg i fynyr allt ai peidio? Dechreuais ffonio fy ngŵr a’m mab, ond nid oedd modd cysylltu â nhw dros y ffôn. Rhedais tuag adref; roeddwn yn sgrechian ac yn crio. Llwyddais i ddod o hyd i fy nai a gofyn iddo ble oedd pawb; dywedodd eu bod i gyd yma.”

Dyma rannodd Shanti am ei brofiad ar 26 Awst pan rwygodd llifogydd anferth drwy gymunedau ar y ffin rhwng Nepal a Tibet gan achosi colled a difrod angheuol.

Mae cannoedd o bobl wedi colli eu bywydau a miloedd yn dal ar goll. Ysgubwyd ymaith gartrefi, pontydd, anifeiliaid, cyflenwadau bwyd a phob dim, gan ynysu cymunedau oedd eisoes yn anodd eu cyrraedd.

Yn yr oriau’n dilyn y trychineb, roedd partneriaid Cymorth Cristnogol yn ymateb. Roedd timau o wirfoddolwyr wedi’u hyfforddi ar eu ffordd at gymunedau yn Nuwakot i osod gwerysll iechyd ar gyfer pobl oedd wedi’u hanafu. Roedd timau eraill yn paratoi eitemau brys fel bwyd, poteli dŵr, deunyddiau hylendid a rhwydi rhag mosgitos, ac roedd grwpiau o ddoctoriaid, nyrsys a chwnselwyr yn dod at ei gilydd.

Dywedodd cyd-weithwyr sy’n cydlynw’r ymgyrch gyda’n partneriaid yn Nepal fod marchnadoedd lleol wedi dod i stop oherwydd y dinistr, gan effeithio’n syth ar incwm a bywoliaethau’r bobl



fregus ac ychwanegu at y pwysau ar deuluoedd. Yn fwyaf arbennig, roedden nhw’n pwysleisio maint y pryder a’r trawma mae cymunedau’n eu profi. Roedd llawer o bobl wedi dianc rhag y dŵr ag eiliadau yn unig wrth gefn. Cafodd plant eu gwahanu oddi wrth eu rhieni; mae pawb yn nabod nifer o bobl sydd wedi colli eu bywydau, ac maen nhw wedi gweld pobl yn cael eu tynnu o’r dŵr a’r mwd. A gan fod yr ardaloedd sy’n agos at yr afonydd yn fregus iawn, maen nhw’n ofni y daw trychineb pellach yn sgil rhagor o lifogydd.

Diolch o galon am bob gweddi a chyfraniad sy’n galluogi ein partneriaid i sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y cymunedau sydd ei angen fwyaf. Gyda’n cymorth, maent yn darparu lloches frys, bwyd, dŵr a chyfleusterau glanweithdra, ynghyd â chymorth hanfodol arall.

<https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/nepal-floods-appeal>

Lluniau: trwy garedigrwydd Uma Bista/FCA
Chwith: Shanti Maya a’i chartref wedi’i ddinistrio gan y llifogydd yn rhanbarth Nuwakot

Uchod: Pobl yn ymgynnull mewn man diogel i weld difrod y llifogydd yn rhanbarth Nuwakot



Gofalaeth Newydd Gogledd Ceredigion

Seion, Aberystwyth;
Bethel, Tal-y-bont
Horeb, Penrhyn-coch;
Bethel, Aberystwyth

Cynhelir Oedfa Sefydli

Y Parchedig
J. Geraint Morse BD, MTh

yn Weinidog
i’r Arglwydd Iesu Grist

**Ddydd Sadwrn,
7 Tachwedd 2026,
am 2.00 y.p.**

ym Methel, Tal-y-bont

*Estynnir croeso cynnes i chwi ymuno
â chyfeillion yr eglwysi
ar yr achlysur hwn*

*Darperir lluniaeth ysgafn yn
Neuadd Goffa Tal-y-bont
wedi’r oedfa*

Gweddi dros Nepal a Tibet

Wylwn gyda phobl Nepal a Tibet.

Mae'r lluniau'n adrodd hanes colledion enbyd.

Galwn arnat ti, O Dduw, ar ran y rhai sydd mewn colled a phrofedigaeth, dros y rhai na allai achub eu hanwyliaid.

Galarwn gyda'r rhai a gollodd eu cartrefi i'r lli.

O Dduw, gwylia dros y rhai sydd eto'n aros i gael eu hachub,

Gweddiwn yn daer dros y rhai sydd wedi'u heffeithio

gan y llifogydd angheuol mewn unrhyw ffordd

a'r rhai sy'n gweithio'n ddiflino i gyrraedd cymunedau sydd wedi colli popeth.

Credwn fod pob bywyd yn werthfawr,

a bod galwad arnom i ymateb i ddioddefaint ein cymydog

gyda thosturi, gobaith a ffydd ar waith.


Tro ein dychryn a'n tristwch ninnau'n weithredoedd,

Gad i ninnau fod yn ddwylo ac yn draed i Ti,

yn estyn llaw a sefyll gyda'n cymdogion yn eu harswyd dwfn a'u hangen brys.

Yn enw Iesu, Amen.

Cymorth Cristnogol yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i atal mewnforio nwyddau o anheddau anghyfreithlon Israelaidd



Mae'r elusen ddyngarol ryngwladol Cymorth Cristnogol wedi croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i atal mewnforio nwyddau o aneddiadau Israelaidd anghyfreithlon fel cam pwysig wrth herio dadleoli'r Palestinaid o'u tiroedd.

Wrth ymateb i ddatganiad Ed Miliband, Ysgrifenydd Tramor y Deyrnas Unedig, dywedodd Cymorth Cristnogol ei fod yn ymateb priodol i'r ffaith fod Israel wedi bod yn torri'r gyfraith ryngwladol ers amser maith.

Dywedodd William Bell, Pennaeth Polisi Dwyrain Canol Cymorth Cristnogol:

'Nid dim ond datganiad am statws cyfreithlon ffrwythau a llysiau ydi hwn heddiw ond cam yn erbyn y bygythiad dirfodol i'r Palestinaid sy'n cael eu gorfodi oddi ar eu tir.

'Mae'n ymateb priodol i droseddau amlwg yn erbyn cyfraith ryngwladol sydd wedi tanseilio'r gobaith am heddwch cyfiawn rhwng Palestinaid ac Israelaidd ers degawdau ac sydd wedi gadael teuluoedd yn ddigartref, mewn cyflwr argyfyngus ac yn ddibynol ar gymorth.

'Oherwydd y brys, rhaid i'r gwaharddiad hwn ddigwydd ar unwaith. Dylid gweithredu sancsiynau llawn yn erbyn darparu gwasanaethau fel adeiladu neu ariannu aneddiadau Israelaidd cyn gynted ag sy'n bosibl.

'Gallwn groesawu hyn fel man cychwyn i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn ymateb i'w chyfrifoldeb i beidio â chefnogi meddiant anghyfreithlon fel hwn, fel a amlinellwyd yn Nogfen Gyngori'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol yn 2024.'

Gwebinar: Llygaid Cymru ar Dde Sudan

Dydd Mawrth, 22 Medi 13.00–14.00

Ymunwch â Chymorth Cristnogol ar-lein dros amser cinio i glywed gan James Wani, Arweinydd Rhaglen a Phartneriaeth De Sudan Cymorth Cristnogol yn Juba.



Heddiw yn Ne Sudan, mae dros 7 miliwn o bobl – hanner y boblogaeth – yn wynebu newyn a chyfraddau uchel o ddiffyg maeth. Mae'n wlad sydd yn parhau i brofi gwrthdaro, dadleoli, ansicrwydd bwyd ac effeithiau dwys yr argyfwng hinsawdd. Mae'n un o sefyllfaoedd dyngarol mwyaf difrifol ein hoes, ac eto, yn anaml y byddwn yn clywed sôn amdani yn y penawdau.


Trwy ein 'Apêl Cynhaeaf' eleni, rydym yn taflu golau ar realiti bywyd cymunedau yn Ne Sudan, lle mae llifogydd, sychder, diffyg dŵr glân a mynediad cyfyngedig at hadau ac offer yn effeithio ar fywyd teuluol. Mae llawer yn ei chael hi'n anodd wedi i'r cynhaeaf fethu sawl gwaith.

Er gwaetha'r heriau yma, mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn parhau i weithio ochr yn ochr â chymunedau, gan gefnogi pobl i adeiladu gwytnwch, ymateb i argyfyngau a chreu newid cynaliadwy.

Dewch i glywed gan James am realiti'r gwaith hwn a sut y medrwn wneud gwahaniaeth: [Cofrestrwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26



Codi'r Llen 35

Ymson Rahab

Dwi eisiau rhannu am y noson y daeth dau ddieithryn at fy nrws. Wyddwn i ddim pwy yn y byd oedden nhw ac roedd ofn arna i.

Ro'n i wedi clywed yr hanesion droeon – am y môr yn agor o flaen y bobl, y brenhinoedd a gafodd eu lladd, a'r Duw a'u harweiniodd nhw allan o'r Aifft. Do'n i ddim yn adnabod y Duw yma nac wedi amgyffred ei ffyrdd. Ond y noson honno roedd rhyw lais yn sibwrdd oddi mewn imi ei fod yn Dduw byw, real.

Ar amrantiad roedd yn rhaid dewis: gofalu amdanaf fy hun, neu gymryd risg. Ond dyna'r llais yn sibwrdd unwaith yn rhagor. Ac yn hytrach na dechrau poeni a phetruso, fe es i â'r dieithriaid i fyny i'r to a'u cuddio. Yna, pan ddaeth milwyr y brenin, dywedais gelwydd a'u gyrru ymaith. Wrth wyllo'r milwyr yn diflannu i'r tywyllwch, gwyddwn nad oedd dim troi 'nôl.

Do'n i'n sicr ddim yn deall popeth, ond roedd y llais wedi dweud bod ffydd yn warant o bethau na ellir eu gweld. Efallai fod ffydd yn golygu cymryd cam anodd pan fo'r llwybr yn aneglur. Roedd gen i gyfle ac fe'm sbardunwyd gan ffydd nad o'n i wedi'i phrofi o'r blaen. Wedi'r cwbl, gŵyr pawb call nad yw cyfle'n aml yn dod eilwaith.

A'r noson honno, fe ddysgais mai Duw radical yw Duw cariad. Dyw e ddim yn edrych ar bobl fel pawb arall; dyw e ddim yn beirniadu, nac yn gwrthod neb. Er bod eraill yn mynd heibio imi,

yn fy mhardduo, yn f'anwybyddu, gwelodd Duw fy nghalon ... reit i mewn i'w gwaelod hi; gweld calon agored, ewyllys i ymddiried, dewrder i wneud!

Efallai ein bod weithiau'n ofni bod Duw ar fin dymchwel ein syniadau bach taclus a'n patrymau arferol. Chi'n gweld, mae e weithiau'n dewis y rhai annisgwyl, y rhai ar y cyrion, y person yn y gornel, yr un yn y cysgod. Nid yw'n gofyn 'Ble ti 'di bod?' neu 'Be ti 'di'i wneud?' neu 'Beth yw dy swydd?' neu 'Be ti 'di'i gyflawni?' Dyw e ddim eisiau gwybod faint ry'n ni'n ennill, na pa ddillad ry'n ni'n eu gwisgo, pwy yw ein ffrindiau, ydym ni'n berffaith ai peidio. Na. Dyma mae'n ei ofyn: 'Be wnei di pan ddaw'r cyfle?'

A rywsut, rywfodd, medrais ddal y cyfle gerfydd fy nwylo. Roedd y risg yn fawr a gallwn golli fy mywyd mor hawdd. Ond wyddoch chi beth? Nid y noson honno yw diwedd y stori, fy stori; edrychodd y Duw byw arnaf, a dangos imi sut y mae ffydd heb weithredoedd yn farw. Fe gydiodd yn fy nwylo i mewn gwirionedd a'm tynnu tuag ato. Rhoddodd imi ddyfodol na fedrwn fyth fod wedi'i ddychmygu.

Mae gen i deimlad ei fod yn edrych arnoch chithau, a'i ddwylo'n ymestyn allan o'i flaen, yn cynnig cyfle ac yn dweud "Dere!"

Holi

• O ddarlenn Hebreaidd 11, gwelwn mai 'trwy ffydd' y cyflawnwyd yr holl bethau sydd wedi'u rhestru yn y bennod, yn cynnwys profiad Rahab. Ydych chi'n ymwybodol, neu oes gennych brofiad, o bethau radical yn cael eu cyflawni 'trwy ffydd'?

• Beth sydd gan Rahab i'w ddysgu inni am weithredu'n hyderus pan nad yw'r atebion yn sicr?

A pha ofnau, fel unigolion neu o fewn ein heglwysi, sy'n atal neu'n effeithio ar ein penderfyniadau i gymryd risg? Ydy ofn yn ein dal ni yn ôl?

• Anwybyddu'r rhagfarnau yn erbyn Rahab wnaeth Duw. Dyna wnaeth Iesu Grist hefyd yn aml. O fewn ein heglwysi, sut mae modd inni weithredu athrawiaeth gras Duw i bawb? Oes yna gamau y gallwn eu cymryd i fod yn fwy cynhwysol?

• Newidiwyd cyfeiriad bywyd Rahab yn llwyr oherwydd ei phenderfyniad. Oes cyfle i chi ddewis gweithredu'n ddewr (gweithred fach neu fawr) ac i hynny gael mwy o effaith nag rydych yn ei sylweddoli?

Gweddï

Dduw hawddgar,
rho inni'r awyddffryd i weld cyfle ac i ddewis gweithredu.
Dduw goleuedig,
cyfeiria dy belydrau
fel y gwelwn y rhai sy'n wahanol i ni a'u gwerthfawrogi.
Dduw cymodlon,
dysg ni i sylweddoli bod mwy yn aml yn digwydd tu ôl i'r wyneb nag ar yr olwg gyntaf.
Dduw cynhwysol,
annog ni i amlygu cariad a thangnefedd yn ein gwneud a'n dweud. Amen.

Siân Meinir



**Cyhoeddiadau Radio a Theledu,
20 Medi 2026**

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 20 Medi, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau yng
nghwmni Manon Ceridwen James,
Esgob Bangor

Oedfa Radio Cymru

Sul, 20 Medi, am 12:00yp

Oedfa o dan arweiniad Tomos
Roberts-Young, Port Talbot

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 20 Medi, am 7.30yh

Ymunwch â'r gynulleidfa yn Eglwys
Sant Iago, Treffynnon, ar gyfer
Cymanfa Ganu Cofio Thomas
Pennant.

Malu Awyr – yn lle mynd i'r afael â materion gwirioneddol bwysig

Prif eitem ar newyddion Radio Cymru y bore 'ma oedd bod Harry a Meghan Windsor yn mynd i ddychwelyd i Brydain i fyw. Ystyriwyd y posibilrwydd hwn mor bwysig fel i'r BBC gael arbenigwr i mewn i drafod ble y galle nhw fyw etc, efallai iddynt drafod rhyw berthnasedd arall, ond yr oeddwn wedi diffodd y radio erbyn hynny.



Dyma felly fynd ati i geisio cael gwybodaeth drwy gyfryngau eraill a chael ar ddeall bod y cadoediad yn dal yn 'wych' (yn ôl Trump a'i 'Fwrdd Heddweh' dan arweiniad y troseddwr rhyfel, Tony Blair); dim ond saith a laddwyd yn Gaza ddoe pan ymosododd yr IDF ar gaffi yn y ddinas, dim ond un plentyn oedd ymhlith y meirw! Nid yw pethau fel hyn yn werth sôn amdanynt, gwell creu'r argraff fod y cyfan ar ben. Wedi'r cwbl dim ond 1,265 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – mae hyn yn amlygu'r ffaith bod y cadoediad yn dal oherwydd lladdwyd y nifer hyn bob pythefnos yn ystod y ddwy flynedd ers hydref 2023. Mae'r cyfanswm erbyn hyn yn 73,399.

Celu'r gwirionedd

Cafwyd cyfeiriadau ar y BBC yn ddiweddar at y ffaith bod awdurdodau Israel yn mynd i gynnal ymchwil mewn i lofruddiaeth erchyll Hind Rajab, y groten chwe blwydd oed a laddwyd, gyda'i theulu, wedi iddi fod yn galw am help. Adroddwyd hefyd bod ymchwiliad yn mynd i fod i lofruddiaeth y parafeddygon a saethwyd wrth iddynt fynd i helpu rhai mewn argyfwng. Mewn ymdrech i gwato'r dystiolaeth fe wnaeth yr IDF gladdu'r cyrff a'r cerbydau ambiwlans, ac wedi i'r rheiny ddod i'r golwg bu gwadu mawr nes i ffôn symudol un o'r lleiddiaid ddod i'r golwg a ddangosodd yn eglur yr hyn a ddigwyddodd. Gwnânt hyn oherwydd y farn gyhoeddus sydd wedi rhoi pwysau arnynt i weithredu!

Cuddio'r troseddau

Dyma gael ar ddeall hefyd fod aelodau o lywodraeth Burnham yn ymffrostio yn y ffaith bod

nifer o'r dronau y mae'r Wcráin yn eu defnyddio i ymosod ar fusnesau a thargedau eraill nad ydynt yn filwrol (felly'n droseddau rhyfel) wedi eu gwneud ym Mhrydain. Mae yna aelodau o luoedd arfog Prydain yn Wcráin ar hyn o bryd yn helpu llywodraeth lygredig Zelenskyi yn ei hymosodiadau ar Rwsia. Y gwir truenus yw bod Prydain yn rhyfela yn erbyn Rwsia nawr! Dyna'r ffordd y mae Rwsia'n dehongli'r hyn sy'n digwydd! Cadw'n dawel am y peth a wna llywodraeth anonest Burnham, fel y mae'n cadw'n dawel am barhad ei gefnogaeth i Israel oherwydd bod ein gwleidyddion yn ofnus o'r farn gyhoeddus.

Dyfalbarhau dros gyfiawnder

Uchod cawn yr union resymau pam y dylwn godi'n lleisiau yn gyson yn enw ffordd tangnefedd – i ddeffro'r farn gyhoeddus iddi gael gweld beth sy'n digwydd, mae'n effeithiol tu hwnt. Na flinwn wneud hynny, gellid addasu un o ddamhegion byr Iesu i ategu hyn: 'Mewn rhyw dref yr oedd barnwr. Nid oedd yn ofni Duw nac yn parchu eraill. Yn y dref honno yr oedd hefyd wraig weddw a fyddai'n mynd ger ei fron ac yn dweud, "Rho imi ddedfryd gyfiawn yn erbyn fy ngwrthwynebwr." Am hir amser daliodd i'w gwrthod, ond yn y diwedd meddai wrtho'i hun, "Er nad wyf yn ofni Duw nac yn parchu eraill, eto, am fod y wraig weddw yma yn fy mhoeni o hyd, fe roddaf iddi'r ddedfryd, rhag iddi ddal i ddod a'm plagio i farwolaeth."'

Buddugoliaeth i'r cyffredin dros y grymus cyfoethog a diegwyddor drwy ddyfalbarhau i dystio dros gyfiawnder. Onid dyna yw cyfrifoldeb yr eglwysi?

Guto Prys ap Gwynfor
(Ar ei dudalen Facebook)

Cyfundeb De Ddwyrain Cymru

Ymrwymo i Fywyd

Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr

Medi 27, 2026 – 10yb-12yp

Gweithy Pum Peth Personol
dan ofal
Fiona Gannon

Gweithdy Eco Eglwys
Delyth Higgins

Addangosfa celf gan artist lleol
David Robinson

Gweithgareddau i blant ac ieuencid

Amserlen

- 10:00yb – Paned a Chymdeithas
- 10:30yb – Addoliad
- 10:45yb – Pum Peth Personol
- 11:00yb – Gweithdai amrywiol
- 11:45yb – Y Fendith ac ymadael

Gwreiddio'n gobaith yng nghreadigaeth Duw

Bydd darpariaeth cyfieithu ar y pryd.

Croeso cynnes i bob un

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

Sul y Cyfundeb

Bore Sul, 27 Medi 2026
am 10.30 o'r gloch

**Ebeneser,
Brynaman SA18 1TF**

Oedfa o Fawl

Dewch i ganu mawl i gyfeiliant band pres

Cyflwynir emynau gan rai o eglwysi'r Cyfundeb

Darperir lluniaeth

Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

MODIWL Y SACRAMENTAU

Cynhelir y modiwl uchod dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall ar y dyddiadau isod:

Nos Lun, 7 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 14 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 21 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 28 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 5 Hydref	7:30 – 9:00	Zoom
Dydd Llun, 12 Hydref	10:00 – 3:00	Aberystwyth

Bydd y modiwl yn cynnig cyfle i ofyn 'beth yw sacrament?', edrych ar sylfeini Beiblaidd y sacramentau, ein dealltwriaeth ohonynt, a'r wedd ymarferol a berthyn iddynt.

I gofrestru, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall: carwyn@annibynwyr.cymru

Croeso cynnes i bawb

Golygyddol

Fel llithriad dŵr ar lethr to Yr â'r blynyddoedd heibio

Deugain mlynedd yn ôl i'r mis hwn y priododd Vikki a finnau yn y Tabernacl Llanrwst. Diolch i Vikki am ei hamynedd tros yr holl flynyddoedd a'i chefnogaeth trwy ddrycin a hindda. A diolch i'r Arglwydd am ein cynnal trwy holl droeon yr yrfa, am ei gariad, ei ras a'i haelioni afresymol. Ar Sul 13 Fedi roeddwn yn dathlu deugain mlynedd ers fy ordeinio yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist gan eglwys Ebeneser, Wrecsam o dan arweiniad y Parchg Eifion Powell a'm tad y Parchg Ddr R. Tudur Jones. Hoffwn ddiolch o grombil fy mod am garedigrwydd a chefnogaeth y ddwy eglwys yr wyf wedi cael y frainc o weini ynddynt, dau Ebeneser, un yn Wrecsam ac un yng Nghaerdydd. Gwerthfawrogaf tra byddaf eich cyfeillgarwch a'ch ffyddlondeb diwyro i waith yr Arglwydd.



Ianuarius

Cofiaf wyllo hen wraig – Ianuarius Bangor Uchaf - yn cerdded i fyny allt serth Glanrafon. Pob hyn a hyn roedd yn cael seibiant er mwyn cael ei gwynt ati. Wrth wneud hynny roedd yn edrych yn ôl i weld lle'r oedd wedi bod ac yna yn edrych i fyny i weld faint oedd i fynd eto o'r daith. Felly rwyf finnau'n teimlo wrth gyrraedd y deugain. Deufor gyfarfod arall lle mae'r gorffennol a'r dyfodol yn dygyfor ac atgofion yn llifo'n rhyferthwy i'r meddwl.

Tröedigaeth

Deuthum i argyhoeddiad fel Cristion ar ddiwedd fy ardegau, nid mewn un digwyddiad dramatig ond dros gyfnod. Peidiwch â gadael i neb eich dilorni

oherwydd na wyddoch na'r awr na'r dydd y daethoch i ffydd yn Iesu. Taith yn amlach na pheidio yw dod i gredu. I rai mae'n daith fer, i eraill mae'n daith hir. I rai mae'n brofiad dwys i eraill mae'n broses esmwyth. Ond gwaith Duw yw pob tröedigaeth. Gwna hyn trwy i'r Ysbryd Glân ddefnyddio nifer o elfennau i'n tynnu at Iesu ac i'w dderbyn fel Gwaredwr ac Arglwydd. Dyna fy mhrofiad i. Y dylanwadau hyn. Gair Duw a gweddi. Fy magwraeth a'm teulu, (aeth fy nau frawd i'r weinidogaeth, Rhys a Geraint, ac mae gennyf ddyled aruthrol iddynt), eglwys Pendref, ysgol Sul, emynau a John Gwilym Jones, hogiau Bala Bangor, cyfarfodydd nos Sul, R. Tudur a Gwenllian Tudur Jones, ffrindiau, Greenbelt, caneuon, ymhlith pethau eraill. Trwyddynt arweiniwyd fi i ffydd yn Iesu fel Gwaredwr ac Arglwydd. Mae'r ddau deitl yma ar yr Iesu'n bwysig. Mae'r teitl Gwaredwr yn cyfeirio at ei waith achubol sy'n cynnwys ei eni gwyrthiol, ei fywyd perffaith, ei weithredoedd da, ei eiriau a'i wersi, ei farw dirdynol ar y groes a'i atgyfodiad. Trwy hyn oll, a mwy, fe ddaeth â gwaredigaeth inni oddi wrth ein pechodau gan gynnig i bob un sy'n credu ynddo, gymod gyda Duw, presenoldeb yr Ysbryd Glân, bywyd newydd wedi ei sgwrio yn lân a bywyd tragwyddol. Mae'r teitl Arglwydd yn cyfeirio at y ffaith ei fod Ef heddiw yn teyrnasu ar y greadigaeth enfawr, ar ddynoliaeth ac arnom ninnau. Fel deiliad i Iesu'r Arglwydd, iildiwn y cwbl iddo gan ymdrechu i fod yn ufudd iddo trwy nerth yr Ysbryd Glân (sancteiddhad). Rydym am fyw er ei fwyn gan hyrwyddo a llwyddo gwaith ei Deyrnas yn ei holl ogoniant a dod â'i hegwyddorion yn ymarferol i fynd toredig, briwedig ac anghenus. 'Car yr Arglwydd dy Dduw a char dy gymydog fel ti dy hun.'

Calla dawo

Wrth ddod i ffydd teimlais yr alwad i'r weinidogaeth, i wasanaethu'r Arglwydd a'm cyd-ddyn. Ac felly bu. Wrth edrych yn ôl dros y deugain, un o'r pethau rhwystredig yw bod cyn lleied o bobl wedi dod i ffydd. Ni all Cristnogaeth lwyddo heb dröedigaethau. Wrth edrych ymlaen mae'r dyfodol yn sicr i'r dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru oherwydd gwaith Duw ydyw nid rhyw sbarblins fel fi. Ar ben hynny Iesu yw'r gwirionedd terfynol, unig Waredwr ac Arglwydd dynoliaeth.

Gallwn ysgrifennu cyfrolau lawer am y deugain ond am y tro, fel y dywedai mam, 'calla dawo.'

Alun Tudur

Gofalaeth newydd Gogledd Ceredigion

Seion Aberystwyth
Bethel Tal-y-bont
Horeb Penrhyn-coch
Bethel Aberystwyth

Cynhelir oedfa sefydlu
Y Parchg J. Geraint Morse
BD, Mth

Yn weinidog i'r
Arglwydd Iesu Grist

**Ddydd Sadwrn,
7 Tachwedd 2026 am 2 p.m.**

Ym Methel, Tal-y-bont

*Estynnir croeso cynnes i chwi ymuno
â chyfeillion yr eglwys i ar yr
achlysur hwn.*

*Darperir lluniaueth ysgafn yn Neuadd
Goffa Tal-y-bont wedi'r oedfa.*

SEMINAR ARBENNIG YN SARON gyda Korea Church Cymru

**DYDD GWENER
2 HYDREF 2026
7:00YH
SARON
CRYNANT, SA10 8NT**

Cwblhaodd y Parcheg Young Chul Lee ei astudiaethau divinyddol yng Nghorea ac enillodd Ddoethuriaeth mewn Gweinidogaeth (D.Min.) gan Regent University, yr Unol Daleithiau.

Mae ganddo dros 30 mlynedd o brofiad fel gweinidog ac mae wedi bod yn ymwneud ag adeiladu ysgolion ac eglwys i ar draws Asia, Affrica a Uganda.

Bydd y Parcheg Lee yn rhannu syniadau ymarferol a fydd o ranu ein ffydd ag eraill ac annog ein cynulleidfaoedd i dilyn, gan ddefnyddio'r hyn y mae'n ei alw'n "Dull Efengylus Pont 3 Minud". Mae 9 allan o bob 10 o bobl wedi dod i ffydd newydd yn Iesu Grist drwy'r dull hwn.



Mae'r Parcheg Jacob a Sockie o Eglwys Thornhill, yr oeddem wedi cael y frainc o ymweld â hi, wedi gofyn i Saron gynnal y noson arbennig hon.

Byddai'n hyfrid rhoi croeso cynnes iddynt ac i'n ffrindiau o'r eglwys Corea.



Bydd y seminar hwn o fudd i holl aelodau eglwys, arweinwyr eglwysig ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn rhannu ei ffydd.

*Mae croeso cynnes i bawb -
dewch i ymuno â ni!*



**PLEASE DIARY THE DATE: FRIDAY 2ND OCTOBER AT 7PM
CADWCH Y DYDDIAD YN EICH DYDDIADUR: DYDD GWENER, 2 HYDREF AM 7:00YH.**

We look forward to welcoming you to Saron! | Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Saron!

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur

39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS

Ffôn: 02920 490582

E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.comAlun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Cornel Mair Harries

Arolwg diweddar Age Cymru

Diolch o galon i bawb wnaeth gymryd rhan yn arolwg Age Cymru ychydig fisoedd yn ôl. Roedd hi'n wych cael mewnbwn gan bobl o ardal Sir Gaerfyrddin, ac yn well fyth cael ymatebion i'r arolwg yn y Gymraeg. Hoffwn rannu rhai o ganfyddiadau'r arolwg gyda chi. Cawsom 1,448 o ymatebion gan bobl o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yn ôl yr ymatebion, y tair prif her sy'n wynebu pobl dros 50 oed yng Nghymru yn 2026 yw: iechyd corfforol (53%), costau byw (52%) a mynediad at fancio wyneb yn wyneb (24%).

Clywsom rai straeon pryderus iawn am safon y gofal iechyd roedd nifer o bobl hŷn wedi ei dderbyn, gyda nifer o bobl yng ngogledd Cymru yn arbennig yn sôn am gyfnodau o wythnosau wedi'u treulio'n derbyn gofal mewn coridorau ysbytai. Roedd ychydig o newyddion da wrth i lai o bobl nag erioed nodi eu bod nhw'n teimlo'n unig, ac roedd y ganran o bobl hŷn a oedd yn dioddef gyda phroblemau iechyd meddwl wedi disgyn o 30% yn 2024 i 20% eleni. Os hoffech chi ddarllen yr adroddiad dyma ddolen i'r dudalen we, neu gofynnwch i fi ddod o hyd i gopi papur i chi:

<https://www.agecymru.cymru/ein-gwaith/polisi/arolwg-blynnyddol/>

Os fedra i roi unrhyw un mewn cysylltiad â gwasanaethau Age Cymru neu unrhyw wasanaeth arall sy'n darparu cefnogaeth i bobl hŷn a'u teuluoedd, dewch i siarad gyda fi

Allan o Pigion Peniel Medi 2026



Dathlu 200

Ebeneser Caerdydd

3ydd Hydref 2026

10.00 -
Cychwyn cerdded
o Womanby Street i
Canolfan Cornerstone.

Neu gallwch
ymuno gyda ni yn
Cornerstone
am 10.30.

**CREU GWIR IN THESE STONES
FEL GWYDR HORIZONS
OF WRNAIS AWENSING**

Ebeneser CAERDYDD

Rhowch eich enwau i
Gwenda a Gill



Diwrnod i weinidogion ac arweinyddion sydd â gofal eglwys

Dewch i ymuno â ni mewn
diwrnod arbennig sy'n
canolbwyntio ar y thema
CYFATHREBU

Dydd Mawrth, 13 Hydref 2026 yn Llety'r Parc, Aberystwyth

10:00	Te / coffi
10:15	Sian Meinir a'r Parchedig Beti-Wyn James Defosiwn yn seiliedig ar benderfyniad adran Yr Eglwys a'u Gweinidogaeth yng Nghyfarfodydd Blynnyddol yr Undeb.
10:45	Delyth Phillips Yr emyn fel cyfrwng cyfathrebu
11:45	Te / coffi
12:00	Sian Owen Eglwys Gynhwysol - yr angen i gyfathrebu'n effeithiol.
13:00	Cinio
13:30	Trafodaeth 'Cyfathrebu effeithiol - allwedd i'n cenhadaeth'
14:00	Parchedig Cass Meurig 'Chwarae a Chredu' - Godly Play yn y Gymraeg. Cyfle i ddysgu mwy am yr adnodd hwn i gyfathrebu â phlant.
15:00	Parchedig Cass Meurig Defosiwn i gloi'r diwrnod ar ffurf 'Chwarae a Chredu'
15:30	Te / coffi ac ymadael

Cofrestrwch erbyn 30 Medi 2026 - carwyn@annibynwyr.cymru

Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl

Cyngerdd coffa

Meirion Williams

Capel Cymreig y Boro
90 Southwark Bridge Rd. Llundain SE1

Nos Sadwrn 3ydd Hydref 2026

7pm

Er budd hosbis plant

Tŷ Hafan

Tocynnau ar gael trwy:
<https://wegottickets.com/event/693992/>

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:
John Jones
07770 268169 | johnjones.calan@gmail.com

Cerddoriaeth sy'n parhau